# Adolygiad o waith ataliol mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yng Nghymru i fynd i'r afael â thrais teuluol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil crynodeb | Ymchwil gymdeithasol | Rhif y ddogfen: 02/2011

Mae'r adolygiad o waith a leolwyd mewn ysgolion i fynd i'r afael â thrais teuluol yn mapio ac yn adolygu gwaith ataliol mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill i fynd i'r afael â thrais teuluol. Mae'n ymgorffori:

- adolygiad o lenyddiaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda yn nhermau mentrau i fynd i'r afael â thrais teuluol
- ymarfer mapio y gwaith presennol mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yng Nghymru i fynd i'r afael â thrais teuluol ac i archwilio sut mae hyn yn gweddu i'r cwricwlwm a gyflwynir mewn ysgolion
- nodi enghreifftiau o waith a ystyrir yn arfer da mewn prosiectau a rhaglenni a gyflwynir mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill i fynd i'r afael â thrais teuluol
- argymhellion ar gydrannau allweddol rhaglen lwyddiannus i fynd i'r afael â thrais teuluol, i'w chyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

## Methodoleg yr ymchwil a'r sampl

Mae'r fethodoleg yn cynnwys pedwar cam gwahanol ond cysylltiedig, yr ymgymerwyd â rhai ohonynt ar yr un pryd.

Roedd cam un yn cynnwys gweithgareddau cychwyn prosiect. Roedd cam dau yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth ynghylch y rhesymeg y tu ôl i Fentrau Trais Teuluol (MTTau) a'r angen amdanynt, a'r MTTau hysbys sy'n cael eu cyflwyno neu wedi cael eu cyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yng Nghymru, y DU, a gweddill y byd.

Roedd cam tri y prosiect yn cynnwys casglu data gan sampl o randdeiliaid allweddol, yn cyfuno pro-fforma electronig â rhaglen gyfweld gynhwysfawr, fel yr amlinellir isod.

Roedd cam pedwar methodoleg y prosiect yn cynnwys adolygiad o'r data monitro a gwerthuso a gasglwyd o gam 3 yr ymchwil.

### Y sampl

Cwblhawyd 26 pro-fforma electronig gan Gydlynwyr Trais Teuluol, staff cefnogi eraill awdurdodau lleol, a phersonél o asiantaethau atal a chefnogi trais teuluol.

Derbyniwyd pedwar pro-fforma am MTTau oedd yn gweithredu drwy holl siroedd Cymru. Cwblhawyd y 22 pro-fforma arall gan randdeiliaid oedd yn ymwneud â MTTau oedd yn gweithredu neu wedi bod yn gweithredu mewn un neu fwy nag un awdurdod lleol yng Nghymru.

Cynhaliwyd cyfanswm o 42 o gyfweliadau; 22 gyda phersonél allweddol â rolau strategol neu weithredol ym mhob un o'r MTTau a nodwyd yng Nghymru, 16 â rôl ymarferol wrth gyflwyno neu gydlynu MTTau, a 4 â staff o ysgolion lle mae MTTau wedi'u cyflwyno.

## Canfyddiadau allweddol

### Yr ymarfer mapio

O'r pro-ffformas electronig, nodwyd bod 26 MTT yn weithredol yng Nghymru. O'r rhain, y pedair fwyaf oedd rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru gyfan (a gyflwynwyd gan Swyddogion Cyswllt Ysgolion yr Heddlu ym mhob ALl yng Nghymru), Rhaglen Sbectrwm (a gyflwynwyd yn 18 o'r 22 ALl gan Hafan Cymru a CMC), Cadw'n Ddiogel (a gyflwynwyd yn 17 o'r 22 ALl gan SERAF, sy'n rhan o  Barnardos Cymru), a Criw Croch (a gyflwynwyd yn 10 o'r 22 ALl gan Hafan Cymru a CMC). Roedd yr 22 MTT arall a nodwyd yn cael eu cyflwyno mewn ALlau unigol neu grwpiau ohonynt gan ddarparwyr oedd yn cynnwys CMC, gwasanaethau ieuenctid, Barnardos Cymru, gwasanaethau lles addysg a staff ALl eraill.

Cyflwynir MTTau mewn amrywiaeth eang o leoliadau, yn ogystal ag ysgolion prif ffrwd ac arbennig. Roedd y rhain yn cynnwys SABau, SAUau, UCDau, canolfannau ieuenctid, hostelau ar gyfer yr ifanc digartref, canolfan gymunedol, a sefydliad troseddwyr ifanc.

Y themâu mwyaf cyffredin yr eir i'r afael â hwy yn yr MTTau yng Nghymru yw:

- Cydrannau perthynas iach

Materion cyfreithiol ynghylch trais teuluol

Sut i adnabod arwyddion cynnar perthynas gamdriniol bosib

Y gwahanol ffurfiau ar drais teuluol

Archwilio pŵer a rheolaeth mewn perthnasau

Materion a stereoteipiau rhywiol

Y ffynonellau help a chefnogaeth sydd gael i'r rheiny sy'n profi trais teuluol.

## Y gwaith maes a'r adolygiad o lenyddiaeth

Mae angen MTTau i waredu trais teuluol, i godi ymwybyddiaeth ohono ac o ffynonellau help a chefnogaeth ymysg plant a phobl ifanc. Mae gan ysgolion rôl hollbwysig i'w chwarae yn hyn.

Dylid teilwra MTTau i weddu i oed, anghenion, a lefelau dealltwriaeth eu cynulleidfaoedd. Nid yw ymagwedd 'un yn addas i bawb' at eu cyflwyno yn briodol.

Mae MTTau yng Nghymru fel arfer yn cael eu cyflwyno i niferoedd mawr o blant a phobl ifanc mewn gwasanaethau neu fel grwpiau blwyddyn. Mae rhai MTTau yn rhaglenni annibynnol, ond maent hefyd yn aml yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm ABCh. Mae nifer y sesiynau cyflwyno yn amrywio rhwng un a deg sesiwn, a gwelir arfer da pan fydd sesiynau dilynol yn cael eu cynnal yn dilyn y cyflwyno.

Mae arfer wrth gyfeirio pobl ifanc at help a chefnogaeth ar gyfer trais teuluol ar y cyfan yn dda yng Nghymru, ond mae priodoldeb y ffynonellau help a chefnogaeth yn broblem.

Mae MTTau yng Nghymru yn cael eu cyflwyno amlaf gan weithwyr CMC, mudiadau cefnogi lleol arall neu staff PPPHI yn hytrach na staff ysgolion. Nid yw staff ysgolion yn derbyn hyfforddiant digonol mewn trais teuluol a materion cysylltiedig, a all arwain atynt yn ymdrin â datgeliadau yn anghywir.

Mae ysgolion yn amrywio'n sylweddol yn nhermau eu

hagweddau at MTTau; mae rhai yn anfodlon cydnabod graddau'r broblem ac yn llawer llai parod i gael MTTau wedi'u cyflwyno yn eu sefydliadau nac eraill.

Nid yw anghenion plant ag ADY/anableddau yn cael eu cwrdd drwy MTTau sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd yng Nghymru. Mae'r graddau y mae anghenion grwpiau ymylol posib eraill o ddisgyblion yn cael eu cwrdd yn amrywio rhwng ALlau ac ysgolion yng Nghymru, ond arsylwir arfer da mewn cyflwyno MTT pan fydd staff o asiantaethau cefnogi arbenigol yn ymwneud â chreu a chyflwyno rhaglenni a dargedwyd.

Mae'r ffactorau sy'n sail i gyflwyno MTTau yn effeithiol wedi'u nodi fel herio agweddau sy'n parhau trais teuluol, gan ddefnyddio technegau ac adnoddau rhyngweithiol a chyfoes yn enwedig rhai gweledol a chlyweledol, herio stereoteipiau seiliedig ar ryw, ymgorffori ecsbloetiaeth rhywiol, a chael cefnogaeth staff uwch reoli mewn ysgolion.

Mae ffactorau a gysylltwyd â chyflwyno llai effeithiol yn cynnwys cyflwyno MTTau yn rhy hwyr, tybio bod cyflawnwyr trais teuluol yn ddieithriaid yn hytrach nag unigolion y mae'n dioddfwr yn eu hadnabod, anwybyddu cymhlethdodau rhwydweithiau cymdeithasol, a MTTau heb fod yn orfodol neu heb gael eu cyflwyno ym mhob ysgol.

Nid yw monitro a gwerthuso MTTau yng Nghymru yn digwydd yn systematig. Mae hyn yn bennaf oherwydd cyfyngiadau staffio ac ariannu.

## Crynodeb o'r argymhellion

Mae'r argymhellion allweddol i **Lywodraeth Cynulliad Cymru** yn cynnwys:

- Cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth trais teuluol mewn ymarfer dysgu cychwynnol a hyfforddiant parhaus
- Cyflwyno MTTau ar draws pobl ysgol a nifer ac ystod uwch o

leoliadau addysgol a rhai amgen anaddysgol yng Nghymru

Cyflwyno gwasanaeth cefnogi rhanbarthol gyda ac i blant sy'n profi trais teuluol mewn cydweithrediad ag asiantaethau arbenigol

Cyflwyno arweiniad i sicrhau bod anghenion yr holl blant a phobl ifanc yn cynnwys y rheiny ag ADY, y rheiny o grwpiau ymylol a'r rheiny o wahanol gefndiroedd ffydd ac ethnig yn cael eu cwrdd yn nhermau eu haddysgu am drais teuluol a sut i gyrchu help a chefnogaeth

Cefnogi cyflwynwyr MTT i gyflwyno gweithgareddau monitro a gwerthuso mwy cyson, sy'n ystyried barn plant a phobl ifanc, yn cynnwys y rheiny ag ADY/anableddau.

Argymhellir y dylai **Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant** yng Nghymru:

Sicrhau bod Cynlluniau PPPhI yn ymgorffori darpariaeth MTT i'r holl blant a phobl ifanc, yn cynnwys y rheiny efallai nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'r argymhellion allweddol i **Gydlynwyr Trais Teuluol** yng Nghymru yn cynnwys:

Sicrhau bod MTTau yn cael eu cyflwyno'n gyson mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill drwy weithio gydag asianthaethau partner

Archwilio potensial lleoliadau amgen ar gyfer cyflwyno MTT

Datblygu gwasanaethau cefnogi trais teuluol am ddim aml-wedd i blant a phobl ifanc.

Mae argymhellion allweddol i **ysgolion** yng Nghymru yn cynnwys:

Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant trais teuluol, wedi'i ddarparu gan bersonél ac asiantaethau arbenigol

Sicrhau bod sesiynau cwnsela yn cael eu darparu ar ôl cyflwyno MTT

Dilyn y gweithdrefnau cywir yn dilyn datgeliadau o drais teuluol

Sicrhau bod staff nad ydynt yn staff ysgol yn cyflwyno MTTau, ond bod athro yn bresennol yn ystod y cyflwyno i gynnal disgyblaeth

Sicrhau bod rhieni yn cael gwybod am gynnwys a nodau

MTTau cyn cyflwyno, a’u bod yn cael eu hannog o atgyfnerthu eu negeseuon allweddol yn y cartref.

Awdur: Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA)

© Hawlfraint y Goron, 2011

ISBN: 978 0 7504 6001 9